| | |
|---|---|
| Swydd | Swyddog Codi Arian yn y Gymuned |
| Cyfradd y gyflog | £24,400 - £26,700<br>*Yn ddibynnol ar brofiad /allu* |
| Math o swydd | Amser llawn - 37.5 awr yr wythnos – ystyrir oriau gwaith hyblyg.<br>Tymor penodol (12 mis). |
| Dyddiad dechrau | 8 Ionawr 2024 |
| Rhybudd am restr fer | 3 Tachwedd 2023 |
| Cyfweliadau | w/d: 6 Tachwedd 2023 , |
| Lleoliad | Mae'r rôl hon i'w chyflawni mewn swyddfa, naill ai yng Nghanol Llundain (Somerset House) NEU yng Nghaerdydd, i fod yn atebol i Gyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru.<br>Mae'r rôl yr un fath, pa un a fydd y deilydd swydd wedi'i leoli/lleoli yn Llundain neu yng Nghaerdydd. |
| I Ymgeisio | A fyddech chi cystal ag uwchlwytho eich CV a llythyr eglurhaol sy'n amlinellu sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf i'r ddolen hon <https://www.surveymonkey.co.uk/r/G7F72VX> erbyn 9am dydd Llun 30 Hydref 2023.<br>Cofiwch gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr sydd mewn sefyllfa i'ch cefnogi'n broffesiynol gyda chyfeiriad byr at ba mor hir ac ym mha sefyllfa y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn y cyfweliad). |
| Hysbysu | Yn anffodus, ni allwn roi unrhyw adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer. Byddwn yn eich hysbysu a ydych ar y rhestr fer ai peidio. |
| Cyfle Cyfartal | Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac felly rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau anableddau neu sydd wedi dioddef hiliaeth.<br><br>Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael eu cyfweld. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael y cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad.<br><br>Mae croeso i ymgeiswyr ag anableddau, neu amgylchiadau iechyd sy'n eu hatal rhag gweithio'n llawn amser, i ymgeisio ond dylai'r ffocws gwaith gael ei gyflawni o fewn y cyfnod o 12 mis..<br><br>Os ydych chi angen cymorth i gwblhau eich cais ar-lein, neu os hoffech gyflwyno eich ymatebion mewn ffurf wahanol, gallwch anfon neges ar e-bost ar jobs@livemusicnow.org.uk neu ffonio 020 7759 1803. |

Live Music Now

Mae Live Music Now yn elusen sydd wedi bod yn gweithio ac yn ymgyrchu ers 1977 i greu effaith cynhwysol, mesuradwy, cymdeithasol drwy gerddoriaeth. Drwy harneisio pŵer cysylltiol cerddoriaeth a gwerthuso ei effaith, rydyn ni'n datblygu arfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl nad sy'n cael eu cynrychioli a rhai bregus yn ein cymdeithas. Mae ein gwaith yn gwella ansawdd bywyd, iechyd a lles ac yn hybu cydraddoldeb cyfle drwy gydnabod potensial creadigol pob unigolyn.

Yn ganolog i'n damcaniaeth o newid yw'r ymrwymiad i gyflwyno effaith cymdeithasol drwy gerddoriaeth. Rydyn ni'n creu'r effaith cymdeithasol hwnnw drwy gerddorion. Ystyriwn mai nhw yw ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hased mwyaf ac rydym yn ceisio gwasanaethu'r angen cynyddol mewn cymunedau sy'n wynebu gwaharddiad cymdeithasol ac anfanteisiol.

Llwyddwn i wneud hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cefnogi bywydau cerddorol pobl sy'n wynebu anfantais a gwaharddiant cymdeithasol.
2. Datblygu a chefnogi'r gweithlu o gerddorion proffesiynol i sicrhau ansawdd arfer, delio â thangynrychiolaeth drwy greu llwybrau cynhwysol i yrfaoedd posibl a sicrhau'r deilliannau gorau i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
3. Hyrwyddo a dangos buddiannau trawsffurfiaeth cerddoriaeth fyw ar ddysgu, datblygu, iechyd a llesiant.

Rydyn ni'n cyflogi ac yn hyfforddi dros 300 o gerddorion proffesiynol i weithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc (CYP) sy'n wynebu rhwystrau anableddau, blynyddoedd cynnar a theuluoedd, gofalwyr a gweithwyr allweddol sy'n cefnogi eraill.

Mae ein gwaith yn cyrraedd dros 85,000 o bobl, yn y cnawd yn fyw ac ar-lein, yn perfformio, yn cydweithio ac yn creu cerddoriaeth drwy sesiynau 1:1 a grŵp, mewn cartrefi, mewn lleoliad gofal, ysgolion arbenigol ac ysbytai a chyngherddau. Mae ein gwaith yn helpu cyfranogwyr i gyfathrebu ac i wneud cysylltiadau cymdeithasol, i ddatblygu sgiliau a chynyddu hyder a gwytnwch.

Mae ein rhaglenni'n cael eu tanategu drwy waith ymchwil a phartneriaethau traws-sector ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan <https://www.livemusicnow.org.uk/>

Mae Live Music Now yn gweithredu ar draws y DU gyda changhennau Lloegr yn cynnwys y De Ddwyrain, De Orllewin ac ar draws y Gogledd a changhennau cenedlaethol yn gofalu am Ogledd Iwerddon a Chymru gyda sefydliad cyffelyb yn yr Alban.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith LMN ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Plant a Phobl Ifanc a Datblygu Cerddorion. Caiff hyn ei gyflwyno drwy rwydweithio canghennau ar draws y DU. Mae Cyfarwyddwr yn arwain pob cangen ac mae hwn/hon yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn atebol i'r Prif Weithredwr sydd, yn ei dro, yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr.

Y Sefydliad Rank
Mae'r Sefydliad Rank yn sefydliad dyngarol sy'n anelu at wella bywydau pobl a'u cymunedau ar draws y DU drwy 1) annog a datblygu arweinyddiaeth a 2) hybu mentergarwch ac arloesi.

Rhaglen Amser i Ddisgleirio (Time to Shine) (T2S)
Mae rhaglen Amser i Ddisgleirio y Sefydliad Rank (T2S) wedi bodoli ers 2011 ac mae'n rhoi cyfle i ymgeiswyr llwyddiannus, a elwir yn "arweinwyr T2S" i brofi arweinyddiaeth a datblygiad lleoliad mewn elusen, gyda thâl, am 12 mis..

Bydd y Swyddog Codi Arian yn y Gymun, Live Music Now yn cael ei gefnogi/chefnogi gan y rhaglen Amser i Ddisgleirio a bydd yn treulio 15% o'i amser/hamser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhaglen arweinyddiaeth a digwyddiadau datblygu drwy gydol y flwyddyn. Hefyd, bydd gan y deilydd swydd gyfle i gael hyfforddiant mewnol yn Live Music Now i gefnogi'r tîm Cyfathrebu a Datblygu ehangach gan gynnwys ymchwilio ac ysgrifennu i gael grantiau, stiwardio rhoddwyr a rheoli gwirfoddolwyr. Bydd cyfleoedd personol CPD fel rhan o gefnogaeth a hyfforddiant HR Live Music Now.

Ar ôl y rhaglen, gall yr arweinydd barhau fel aelod o lwyfan cymunedol ar-lein Ranknet i gael mynediad i amrywiol gyfleoedd.

Dalier sylw
Lluniwyd rhaglen T2S i roi cyfle newydd o gyflogaeth daladwy i rywun sydd ar hyn o bryd, naill ai'n ddi-waith neu'n cael ei dangyflogi/thangyflogi (h.y. yn gweithio ar hyn o bryd yn is na'i sgiliau lle mae'r rôl hon wedi cynyddu cyfrifoldeb yn sylweddol).

Disgwylir i'r deilydd swydd fynychu amrywiol ddigwyddiadau T2S a dyddiau datblygu fydd yn golygu tua 12 diwrnod o deithio a nifer fechan o aros dros nos yn ystod y rhaglen, gan gynnwys y dyddiadau allweddol canlynol:

- w/d 22 neu 29 Ionawr 2024 - deuddydd i fynychu'r Gynhadledd Lansio
- w/d 10 neu 17 Mehefin 2024 - deuddydd i fynychu'r Gynhadledd Adolygu
- Medi 2024 - deuddydd i fynychu Cynhadledd Flynyddol Rank

Gellir gweld mwy o wybodaeth am y rhaglen Amser i Ddisgleirio gan gynnwys mewnwelediadau personol gan ymgeiswyr blaenorol am eu profiadau ar y rhaglen yn [Time to Shine - The Rank Foundation]

Swyddog Codi Arian Cymunedol
Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Codi Arian

- Datblygu rhaglen codi arian cymunedol ar gyfer Live Music Now
- Cefnogi'r Ymddiriedolaethau a'r Rheolwr Sefydliadau gydag ymchwil i arianwyr a llunio ceisiadau draft i gefnogi datblygu rhaglenni
- Llunio adroddiadau ariannu gan gynnwys llunio adroddiadau am astudiaethau achos yn unol â'r gofyn gan roddwyr
- Rheoli cronfa ddata arianwyr gan sicrhau bod manylion cyswllt a gofynion rhoddwyr yn cael eu cofnodi yn unol â gofynion GDPR

Marchnata a Chyfathrebu

- Creu a chyflwyno cynllun cyfathrebu ar gyfer codi arian cymunedol
- Llunio adnoddau digidol ar gyfer gwirfoddolwyr i sefydlu a chynnal grwpiau codi arian cymunedol
- Trefnu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau i gefnogi recriwtio a datblygu grŵp codi arian cymunedol peilot
- Cyfuno gwybodaeth am y prosiect, storïau newyddion, delweddau a dyfyniadau ar gyfer y wefan a chyfryngau cymdeithasol
- Creu taflenni gwybodaeth a deunyddiau marchnata drwy ddefnyddio Canva a Flickr (darperir hyfforddiant)
- Creu a llunio e-daflen newyddion codi arian cymunedol
- Creu arweinlyfr 'sut i' mewnol ar gyfer codi arian cymunedol

Datblygiad

- Creu llyfrgell o adnoddau newydd i gefnogi cyfathrebu am godi arian gan gynnwys templed ymgeisio a llunio adroddiadau ar gyfer pob ardal o waith Live Music Now, gydag astudiaethau achos a dyfyniadau addas (gyda hawl i'w defnyddio wedi'i gadarnhau)
- Cynnal cyfres o ddigwyddiadau i recriwtio a chefnogi grŵp codi arian cymunedol peilot
- Cysylltu â a chefnogi grwpiau codi arian cymunedol i ddechrau a chasglu adborth ar y broses

Tasgau ychwanegol

- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl gofyn y Prif Weithredwr neu reolwr llinell y deilydd swydd
- Dylai'r deilydd swydd fod ar gael i deithio ar tua 12 diwrnod yn ystod y cyfnod o 12 mis i fynychu digwyddiadau rhaglen Amser i Ddisgleirio a dyddiau datblygu.
  Prif ddyddiadau:
  - w/d 22 neu 29 Ionawr 2024 – 48 awr i fynychu'r Gynhadledd Lansio
  - w/d 10 neu 17 Mehefin 2024 – 48 awr i fynychu Cynhadledd Flynyddol Rank
  - bydd amrywiol ddyddiadau unigol i fynychu Dyddiau Arweinyddiaeth y Sefydliad yn cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol drwy gydol y flwyddyn

Telerau ac Amodau

Mae'r swydd yn un llawn amser mewn swyddfa naill ai yn Llundain neu yng Nghaerdydd ac fe'i cynigir fel cytundeb pendant o 12 mis o 8 Ionawr 2024.
Y gyflog fydd £24,400 - £26,700, yn ddibynnol ar brofiad /a thelir yn fisol.

a) Mae'r penodiad yn ddibynnol ar:
   i) bedair wythnos o rybudd o'r un ochr neu'r llall
   ii) gyfnod prawf o dri mis

b) Mae'n bosibl y bydd angen gweithio gyda'r nos neu ar benwythnos weithiau. Nid oes unrhyw dâl goramser ond mae'n bosibl trefnu amser rhydd yn lle hynny.

c) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn ar gyfer yr holl staff cymwys ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus a bydd yn cael ei dalu drwy'r gyflog. Mae'r sefydliad yn cyfrannu 3% o'ch cyflog i'r cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

Nodiadau

Mae pob swydd yn gallu cael ei newid o bryd i'w gilydd a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Arweiniad yw'r disgrifiad swydd i'r gwaith y bydd disgwyl i chi ei wneud ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â graddfa'r swydd.

Swyddog Codi Arian Cymunedol
Manyleb Bersonol

| | Hanfodol | Dymunol | Aseswyd drwy |
|---|---|---|---|
| Profiad | | | |
| Lleiafswm o brofiad blwyddyn mewn rôl weinyddol mewn swyddfa o fewn sefydliad celfyddydol, diwylliannol neu wirfoddol, neu swydd gyfatebol drwy wirfoddoli a/neu brofiad gwaith. | | X | Cais a chyfweliad |
| Sgiliau/galluoedd | | | |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar gydag agwedd dda wrth siarad ar y ffôn | X | | Cais a chyfweliad |
| Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol | X | | Cais a chyfweliad |
| Llythrennog ar draws ystod o raglenni TG, gan gynnwys. MS office, Dropbox, Zoom | X | | Cais a chyfweliad |
| Hyfedr wrth ddefnyddio systemau rheoli cynnwys (cronfeydd data) | | X | Cais a chyfweliad |
| Gwybodaeth waith am offer marchnata, gan gynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gysylltu â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid | | X | Cais a chyfweliad |
| Deall dulliau codi arian neu wirfoddoli (gan gynnwys codi arian yn y gymuned ac ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol) | | X | Cais a chyfweliad |
| Gwybodaeth a dulliau ymdrin | | | |
| Diddordeb mewn datblygiad cerddorion proffesiynol | | X | Cais a chyfweliad |
| Angerdd ac ymrwymiad i'r posibilrwydd o gerddoriaeth fel offeryn newid a'i effaith ar gyfranogwyr a cherddorion | X | | Cais a chyfweliad |
| Ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiad a chyfleoedd cyfartal | X | | Cais a chyfweliad |
| Deall diogelu ac ymrwymiad iddo | X | | Cais a chyfweliad |
| Cyffredinol | | | |
| Egnïol, creadigol, swyddogaeth mentro ac ymrwymedig | X | | Cais a chyfweliad |
| Hunan-gymhellol, gallu i osod blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio'n unigol wrth weithredu fel rhan o dîm ehangach o dan gyfarwyddyd. | X | | Cais a chyfweliad |
| Y gallu i weithio fel rhan o dîm a datblygu perthnasoedd effeithiol | X | | Cais a chyfweliad |
| Yn gallu siarad Cymraeg. | | X | Cais a chyfweliad |

Eich data a'ch preifatrwydd
Bydd data pob ymgeisydd yn cael ei gadw ar ein system yn ystod y broses gyfweld ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Wedi hyn, dim ond y data a geirda personol yr ymgeisydd llwyddiannus fydd yn cael ei gadw: Bydd holl ddata'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu dinistrio neu eu dileu o'n cofnodion.  Mae Live Music Now yn ymrwymo i beidio byth werthu na rhoi data unrhyw unigolyn i gwmnïau allanol. Gallwch weld ein Polisi Data a Phreifatrwydd I gael mwy o fanylion.

I gael y newyddion diweddaraf am waith a newyddion Live Music Now, gallwch arwyddo i gael ein taflen newyddion ar ein gwefan ar www.livemusicnow.org.uk